# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Terfynu Cytundeb Partneriaeth GwE |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Dewi Jones |
| **Swyddog perthnasol:** | Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 21 o Ionawr, 2025 |

## 1. Penderfyniad a Geisir:

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r argymhelliad i derfynu'r gytundeb cydweithio presennol a thrwy hynny gadarnhau y bydd GwE, gan gynnwys Cyd-Bwyllgor GwE, yn dod i ben ar y 31 o Fai, 2025.

## 2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Yn dilyn adolygiad o gyfrifoldebau partneriaid Addysg yng Nghymru mae argymhelliad wedi ei wneud i symud i fodel rhanbarthol ehangach o weithio.
I'r perwyl hwnnw, mae'r Bwrdd Trosiannol wedi'i sefydlu i oruchwylio trefniadau trosglwyddo gwasanaethau GwE yn ôl i'r awdurdodau lleol yn Ngogledd Cymru.
Er mwyn ffurfioli y newid i'r trefniant o weithio mewn partneriaeth, mae gofyn i'r 6 awdurdod gymeradwyo dod a'r gytundeb presennol (Gwasanaethau GwE) i ben ynghyd a diddymu Cyd-Bwyllgor GwE.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### 3.1. Cefndir/ Cyflwyniad

Sefydlwyd GwE trwy gytundeb rhwng y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru dyddiedig 18 Chwefror, 2013.

Cytunwyd i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fyddai'n atebol i'r chwe Cyngor ac a fyddai'n cyflawni swyddogaethau statudol y cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion h.y. dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion yn ogystal a darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.
Bu i'r cynghorau gytuno i benodi Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth gan ffurfio Cyd-Bwyllgor, i gadw trosolwg a rhoi arweiniad yn ôl y gofyn, yn unol ag Adran 101(5) a 102(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

### 3.2. Rhesymeg a chyflwyniad dros argymell y penderfyniad

Ar y 31 o Ionawr, 2024, bu i'r Gweinidog ar gyfer Addysg a'r Iaith Gymraeg ar y pryd, gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn cyfeirio at adolygiad o rolau a chyfrifoldebau partneriaid Addysg yng Nghymru yn ogystal a threfniadau gwella ysgolion cyfredol. Roedd y datganiad yn gwneud yn glir

bod bwriad i symud oddi wrth y model rhanbarthol ehangach ar gyfer cefnogi gwella ysgolion gyda golwg i sefydlu partneriaethau rhwng mwy nac un awdurdod ar lefel mwy lleol. Arweiniodd hyn at gadarnhad y byddai GwE yn dod i ben fel consortiwm rhanbarthol.

Yn sgil y datganiad hwnnw, mae Bwrdd Trosiannol wedi'i sefydlu i oruchwylio trefniadau trosglwyddo gwasanaethau GwE yn ôl i'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ac mae strwythurau wedi'u datblygu er mwyn darparu'r gefnogaeth i ysgolion ar lefel awdurdodau lleol unigol.

Fodd bynnag, mae angen dod a'r gytundeb, i gydweithio mewn partneriaeth yn y cyd-destun hwn, i ben yn ffurfiol. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i bob un o'r chwe Cyngor gytuno'n ysgrifenedig i derfynu'r gytundeb presennol. Gofynnir felly i'r Cabinet gymeradwyo'r argymhelliad i derfynu'r gytundeb cydweithio yma a thrwy hynny gadarnhau y bydd GwE yn dod i ben ar y 31 o Fai 2025.

Noder nad yw terfynu'r gytundeb yn effeithio ar hawliau cronnus nac ar yr ymrwymiadau sydd eisoes wedi'u cytuno arnynt. Manylir ar yr ymrwymiadau hynny yn y gytundeb a wnaed rhwng y chwe Awdurdod yn 2013 (gweler Atodiad 1).

### 3.3. Camau nesaf

**Argymhellion:**

1. Bod y Cyngor hwn yn cymeradwyo terfynu'r gytundeb i weithio mewn partneriaeth efo awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru yng nghyd-destun Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion rhanbarthol (GwE) ar y 31 o Fai, 2025 ac o ganlyniad diddymu yr angen am barhad Cyd-Bwyllgor GwE .
2. Bod y Cyngor hwn yn cadarnhau ei ymrwymiad cytundebol yng nghyswllt dod a'r trefniant i ben.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol.

### 4.1. Prif Swyddog Cyllid

Y penderfyniad a geisir yw'r cam nesaf yn y broses o ymateb i ddatganiad y Gweinidog ym Ionawr 2024, a fydd yn arwain at newidiadau sylfaenol yn y ffordd bydd y gefnogaeth i ysgolion yn cael ei ddarparu. Mae'n glir bellach nad oes rheswm dros beidio dirwyn y cydbwyllgor i ben. Mae'n anorfod bydd yna gostau ynghlwm â hyn, yn enwedig o safbwynt y costau diswyddo posib. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gadw'r costau hyn – a fydd yn syrthio ar y chwe awdurdod yn y gogledd os na fydd cronfeydd GwE yn ddigonol – i'r isafswm bosib; byddant felly o dan adolygiad parhaus ond er mwyn symud ymlaen a sefydlu'r trefniadau newydd nid oes dewis ond eu wynebu.

### 4.2. Swyddog Monitro

Ymysg ei gyfrifoldebau fel yr awdurdod lletya, Cyngor Gwynedd yw cyflogwr staff GwE.

Mae'r cytundeb yn cynnwys darpariaethau i indemnio'r Cyngor rhag costau, megis taliadau

diswyddo, sy’n dod i’w law wrth gyflawni ei ddyletswyddau a’i ymrwymiadau yn ei rôl fel awdurdod lletya. Yn yr un modd â’r penderfyniad i’w sefydlu, mae penderfyniad i ddirwyn y Cydbwyllgor i ben yn swyddogaeth weithredol ac felly yn gyfrifoldeb i’r Cabinet. Mae hyn yn cynnig llwybr priodol a rhesymol i gwblhau’r broses o ddirwyn y trefniadau GwE i ben.